

Gair am Gyfweiliadau



Beth yw cyfweiliad?

Ar y lefel fwyaf sylfaenol, *cyfarfod rhwng dieithriaid* yw cyfweiliad, ac mae'n werth cadw hynny mewn cof bob amser wrth i chi baratoi at gyfweiliad. Gan mai ychydig iawn o amser fydd gennych i wneud argraff dda, mae'n allweddol i chi baratoi.

Dylai cyfweiliad fod yn broses ddwyffordd, ond mewn gwirionedd, ac yn gynnar yn eich gyrfa yn arbennig, gallwch chi deimlo'n aml mai'r sawl sy'n eich cyfweild sydd â'r holl rym. Er y gallwch deimlo fel petaech chi, yr ymgeisydd, yn cael eich pwysu a'ch mesur a'ch barnu, proses ddwyffordd ddylai cyfweiliad fod. Mae angen i chi fod yn sicr bod y swydd a'r sefydliad yn iawn i chithau hefyd. Gall meddwl am gyfweiliad fel hyn helpu i leddfu'ch ofnau. Mae'n wir dweud bod y mwyafrif o bobl yn nerfus mewn cyfweiliadau ac yn teimlo dan straen, faint bynnag o gyfweiliadau y maent wedi'u cael, ond drwy ddarganfod ychydig yn rhagor a pharatoi'n well, mae modd i chi roi hwb i'ch hyder a gwella'ch perfformiad mewn cyfweiliad gryn dipyn.

➤ Beth yw diben cyfweiliad?

Yn sicr, nod y cyfweilydd yw darganfod a oes gennych chi'r potensial i wneud y gwaith yn effeithiol a gwneud cyfraniad buddiol i'r adran a'r sefydliad. Ar ei symlaf, bydd hynny'n golygu mai'r cwestiynau fydd:

- Allwch chi wneud y gwaith? (Sgiliau, priodoleddau, gwybodaeth, profiad, dealltwriaeth)
- Wnewch chi'r swydd? (Brwdfrydedd, ymroddiad, teyrngarwch)
- Fyddwch chi'n cyd-dynnu â'r staff? (Personoliaeth, agwedd, ymagwedd, cyd-fynd yn dda ag ethos a gwerthoedd y cwmni, a chyd-dynnu â'r tîm sydd yno'n barod)

Dylech chi fod yn gofyn cwestiynau tebyg i chi'ch hun. Ydy'r swydd ar y lefel iawn i chi? Ydy hi'n gofyn gormod neu heb gynnig digon o her? Er nad oes neb, gyda llaw, yn disgwyl i chi wneud y gwaith yn berffaith o'r diwrnod cyntaf ymlaen, mae angen i chi fod yn ffyddiog y gallwch chi wneud cyfraniad gwerthfawr os cewch chi gyflwyniad cywir iddo a thipyn o hyfforddiant.

Mae angen i chi ofyn i chi'ch hun a yw'r syniad o weithio i'r sefydliad hwn, ac yn y swydd hon, yn eich cyffroi ac yn eich plesio. Rhaid i chi hefyd ofyn i chi'ch hun a ydych chi'n ymuniaethu â chenhadaeth a gwerthoedd y sefydliad a'r ffordd y mae'n gwneud ei waith. Yn olaf, pa fantais gewch chi o'r swydd? Fydd ei derbyn hi'n gam da yn eich gyrfa?

Drwy ofyn cwestiynau o'r fath i chi'ch hun wrth baratoi ar gyfer cyfweiliad, ac yn y cyfweiliad ei hun, byddwch chi'n newid y cydbwysedd grym. Fydd y cyfweiliad ddim, bellach, yn teimlo mor unochrog. Mae angen i chi deimlo bod y swydd yn iawn i chi lawn cymaint ag y mae angen iddynt hwy deimlo'ch bod chi'n iawn iddynt hwy.

➤ Gwahanol fathau o fformatau cyfweild

Gall cyfweiliadau ddilyn sawl patrwm. Ond ar ryw bwynt, beth bynnag fydd wedi digwydd cynt, fe gewch chi'ch hun gan amlaf yn cael eich cyfweild yn ffurfiol wyneb-yn-wyneb gan un neu ddau o gyfweilydd, neu mewn rhai achosion gan sawl un, yr un pryd.

Dyma brif fformatau posibl i gyfweiliad. Dylech gael gwybod beth yn union y dylech chi ei ddisgwyl, ond os bydd gennych chi unrhyw amheuan, cysylltwch â'r sefydliad a'u holi.

- **Cyfweiliadau grŵp** - Cewch chi'ch cyfweild yr un pryd ag amryw o ymgeisydd eraill. Gofynnir cwestiwn i bob ymgeisydd yn ei dro/ei thro, ac efallai y cewch chi'ch annog i gynnal trafodaeth gyda'r ymgeisydd eraill. Yna, gall detholiad o'r ymgeisydd fynd ymlaen i gael eu cyfweild fesul un.

- **Cyfres o gyfweiliadau gyda gwahanol bobl** - bydd pob un ohonynt, gobeithio, â chanolbwynt gwahanol i'w gwestiynau/i'w chwestiynau, ond efallai y bydd rhaid i chi ailadrodd eich atebion. Os cewch gwestiynau tebyg i'w gilydd, rhowch ateb yr un mor llawn bob tro.
- **'Sgyrsiau' anffurfiol â gwahanol bobl cyn cael cyfweiliad ffurfiol** - efallai y cewch chi'ch cymryd ar daith o amgylch y lle a chael cyfle i ofyn amryw byd o gwestiynau. Cymerwch y sgyrsiau anffurfiol hynny lawn cymaint o ddifrif â'r cyfweiliad ffurfiol! Mae'n eithaf sicr y caiff pawb y siaradwch ag ef neu hi gais i fynegi barn ynghylch pa mor addas ydych chi.
- **Cyfweiliadau ffurfiol wyneb-yn-wyneb** - gallai fod yn gyfweiliad un-i-un mewn sefydliadau bach ond yn aml bydd mwy nag un cyfweilydd. Bydd y cwestiynau'n canolbwyntio ar y dystiolaeth rydych chi wedi'i chyflwyno yn eich cais/CV ynghylch a fyddwch chi'n bodloni gofynion y swydd.
- **Cyfweiliad gan banel** - gallech chi gael eich cyfweild gan sawl person, a'r Cadeirydd yn cydlynu'r cwestiynau. Yn aml, bydd pob aelod o'r panel â'i set ei hun o gwestiynau - rhai y cytunwyd arnynt ymlaen llaw - a bydd yn gofyn yr un set o gwestiynau i bob ymgeisydd. Gwnewch yn siŵr eich bod chi, wrth ateb cwestiwn gan un aelod o'r panel, yn cyfeirio'r ateb at bawb ac nid at y person hwnnw'n unig. Cyfweiliad gan banel yw'r patrwm arferol yn y sector cyhoeddus.
- **Canolfannau asesu** - diwrnod neu ddau neu ragor ac, fel rheol, sesiynau gwybodaeth, tasgau, ymarferiadau a digwyddiadau cymdeithasol. Gofalwch beidio ag ymddwyn yn rhy ddidaro neu'n siarad yn ddi-hid yn ystod unrhyw ddigwyddiad cymdeithasol, egwyl am goffi neu ginio. Bydd angen i chi fod yn broffesiynol eich agwedd drwy'r amser. I gael gwybodaeth fanwl, ewch i www.aber.ac.uk/careers/assesscentre.
- **Cyfweiliadau dros y ffôn** - mae cyflogwyr yn defnyddio mwy a mwy ar y rhain fel ffordd o sgrinio ymgeiswyr i weld a yw hi'n werth gofyn iddynt ddod i gael cyfweiliad wyneb-yn-wyneb neu i ddod i ganolfan asesu. Bydd cyfweiliadau dros y ffôn yn dipyn o her. Gan fod pob ciw gweledol yn absennol, mae'n werth eu hystyried yn fanwl. Cewch wybod rhagor am gyfweiliadau dros y ffôn yn yr adran 'Ymchwilio a Pharatoi'.

➔ Ymchwilio a Pharatoi

Camgymeriad mwyaf pobl pan gânt eu galw i gyfweiliad yw gwneud dim. Mae'n gwbl hanfodol i chi baratoi'n drylwyr cyn cyfweiliad. Pa fath bynnag o gyfweiliad gewch chi, dylech chi baratoi yn yr un ffordd bob tro:

YMCHWILIO

PARATOI

YMARFER

Gwnewch eich ymchwil

- **Darganfyddwch gymaint ag y gallwch chi** am y sefydliad - ei wahanol 'ganghennau' a lleoliadau, ei gynlluniau at y dyfodol, ei sefyllfa ariannol, ei ddatganiad cenhadaeth a'i ethos. Ewch i'w wefan a llwythwch i lawr a darllenwch unrhyw adroddiad a deunydd cyhoeddusrwydd/marchnata diweddar a gewch chi yno.
- Darllenwch unrhyw **adroddiad allanol**. Ewch i Nexis (gwasanaeth newyddion ar-lein) yn www.aber.ac.uk/cy/is/electinfo/eiaz/#N er mwyn i chi ddangos ehangder eich gwybodaeth amdanynt.
- Mynnwch wybod am unrhyw **faterion cyfredol** yn y newyddion a all fod yn gysylltiedig â busnes y sefydliad. Mae rhaglen *Today* yn ffynhonnell dda o'r wybodaeth ddiweddaraf - www.bbc.co.uk/today.

- Ceisiwch **ddarllen rhwng y llinellau** a darganfod sut maent yn trin eu staff, eu dulliau o reoli, yr amodau ac ati. Os ydych chi'n adnabod rhywun sy'n gweithio i'r sefydliad, holwch ef neu hi.
- Chwiliwch am gymaint o wybodaeth â phosibl am **rôl y swydd**. Ewch i wefan Prospects - www.prospects.ac.uk/types_of_jobs.htm.
- Lluniwch rai **cwestiynau** addas i'w gofyn.

Paratowch eich hun

- Os awgrymir cael sgwrs anffurfiol neu ymweliad, **manteisiwch ar hynny**.
- Gwiriwch pa mor dda y mae'r hyn y mae arnynt ei angen yn **cyd-fynd** â'r hyn y gallwch chi ei gynnig. **Gwnewch nodiadau** i'ch atgoffa'ch hun o'r dystiolaeth orau sydd gennych ar gyfer pob maen prawf neu gymhwysedd.
- **Ceisiwch ragweld y cwestiynau**. Byddant yn canolbwyntio ar y meini prawf/cymwyseddau hanfodol ac ar eich CV/cais.
- Penderfynwch pa **ddillad** y byddwch chi'n eu gwisgo. Y cyngor gorau, mae'n debyg, yw gwisgo'n chwaethus yn hytrach nag yn anffurfiol, ond rhaid i'r dillad **gyd-fynd** â natur y swydd. Dylech chi geisio edrych yn chwaethus, yn broffesiynol ac yn bwrpasol. Ond cofiwch y gall dillad newydd achosi problemau. Gan fod botymau'n gallu dod yn rhydd a choleri ac esgidiau grafu'r croen, syniad da yw rhoi cynnig ar eu gwisgo ymlaen llaw. Mae angen i chi deimlo mor gyffyrddus ac ymlaciol ag y gallwch chi.
- Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gwybod **beth y dylech fynd ag ef gyda chi**, e.e. tystysgrifau gradd, pasbort, dogfennau eraill, portffolio ac ati, a rhowch drefn arnynt ymlaen llaw.
- Prynwch **ffolder busnes neu bortffolio busnes chwaethus** i roi ynddo'ch cais, eich gwybodaeth am y sefydliad a'r swydd, eich nodiadau a'ch cwestiynau, unrhyw dystiolaeth berthnasol o'ch cyraeddiadau personol, ac ati. Cofiwch fynd ag ef gyda chi a darllenwch ef cyn mynd i mewn.
- Gwiriwch y lleoliad a **chynlluniwch eich taith** gan adael digon o amser i chi gyrraedd.

Paratowch ar gyfer unrhyw dasg

Wrth i chi gael eich cyfweld, pa 'ffurf' bynnag fydd i'r cyfweliad, efallai y cewch chi gais i gyflawni tasgau penodol. Er enghraifft:

- Rhoi **cyflwyniad** byr cyn y cyfweliad ffurfiol, neu yn ystod y cyfweliad, fel rheol
- Cyflwyno **gwers/darlith** (addysg/hyfforddiant)
- Amddiffyn/esbonio **portffolio** artistig
- Cymryd rhan mewn **ymarfer/trafodaeth grŵp**
- **Dangos eich hyfedredd** mewn sgil
- Datrys **problem dechnegol** (cyfrifiadura, peirianeg)

Er mwyn i chi allu paratoi'n drylwyr, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gwybod beth yn union y bydd gofyn i chi ei wneud.

Ewch ati i ymarfer atebion i gwestiynau posibl

a. Cwestiynau traddodiadol


<ul style="list-style-type: none"> • Soniwch rywfaint amdanoch chi'ch hun 	<p>Fyddan nhw ddim eisiau clywed holl hanes eich bywyd! Mae angen paratoi'n ofalus cyn ateb y cwestiwn syml hwn. Cadwch yr ateb yn fyr a soniwch am y pethau allweddol amdanoch chi sy'n berthnasol i'r swydd. Fel yn achos pob cwestiwn, gallwch chi ofyn iddynt egluro beth yn union yr hoffent ei wybod. Bydd hynny'n rhoi peth amser i chi feddwl.</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Pam wnaethoch chi gais am y swydd hon? 	<p>Dyma'r cyfle i chi ddangos ehangder eich dealltwriaeth a'ch gwybodaeth o rôl y swydd ac o'r sefydliad ei hun. Mae arnynt eisiau bod yn sicr eich bod chi'n wirioneddol frwd ynglŷn â'u sefydliad, a'u sefydliad hwy'n unig. Rhaid i chi beidio â rhoi'r argraff i chi wneud eich cais am fod arnoch chi eisiau unrhyw swydd o gwbl!</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Beth allwch chi ei gynnig i ni? 	<p>Peidiwch â manylu ynghylch cymaint o gyfle da fyddai hyn i chi. Dylech sôn am yr hyn y gallwch chi ddod ag ef i'r swydd a'r sefydliad. Byddwch chi'n eich gwerthu'ch hun fel yr ymgeisydd gorau.</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Ble'r ydych chi'n gobeithio bod ymhen pum mlynedd? 	<p>Peidiwch â dweud 'yn eich cadair <i>chi</i>', na gweithio i gystadleuydd arall (pwysicach), na rhedeg eich busnes eich hun, ac ati. Gallech chi ddweud rhywbeth fel eich bod chi'n gobeithio cyflawni rôl fwy heriol a chyfrifol erbyn hynny. Gan ddibynnu ar y sector, gall honno fod yn rôl arweinydd tîm, yn rheolwr(aig) r(h)anbarthol, yn rheolwr(aig) prosiect, yn bennaeth adran, ac ati. Ceisiwch ddarganfod ymlaen llaw p'un fydd y cam nesaf i fyny o'r swydd sydd dan sylw.</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Beth yw'ch gwendid pennaf? 	<p>Peidiwch â dweud eich bod chi'n berffeithydd neu'n gweithio'n ddi-stop. Cafwyd yr atebion hynny hyd syrffed. Ceisiwch enwi rhywbeth sydd wedi bod yn her i chi yn y gorffennol a dangoswch sut y gwnaethoch chi ddyfeisio strategaethau i oresgyn unrhyw anhawster. Byddant yn astudio pa mor hunanymwybodol ydych chi, a'ch gallu i feddwl amdanoch eich hun yn onest a bod yn barod i wella.</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Cryfderau? 	<p>Bydd angen i chi fod wedi meddwl yn ofalus am hyn a bod yn barod i 'ganu'ch clodydd' eich hun. Lluniwch restr o'ch cryfderau allweddol ymlaen llaw a pheidiwch ag ofni sôn amdanynt yn hyderus.</p>
<ul style="list-style-type: none"> • Oes gennych chi unrhyw gwestiynau i ni? 	<p>Byddwch â chwestiwn neu ddau iddynt bob amser. Peidiwch â holi am arian neu fuddion ac ati. Gallech holi a oes cyfleoedd i gael sesiynau o ddatblygiad proffesiynol parhaus, er enghraifft, neu fynd yn ôl at bwynt a wnaeth rhywun ynghynt a gofyn iddo/iddi sôn rhagor amdano, neu efallai y gallech chi holi ynghylch cynlluniau i ehangu neu am fentrau newydd rydych chi wedi clywed amdanynt.</p>

b. Cwestiynau sy'n seiliedig ar ymddygiad neu gymhwysedd

Credir bod cymwyseddau'n gwella'r broses o ddod o hyd i'r person iawn i'r swydd a hefyd o asesu perfformiad unigolyn yn ei swydd. Y farn yw bod hynny'n decach a'r canlyniadau'n fwy llwyddiannus.

Yn wahanol i ddisgrifiad o swydd, sydd fel rheol yn rhestru'r tasgau neu'r swyddogaethau a'r cyfrifoldebau sydd i rôl benodol, bydd set o gymwyseddau'n rhestru'r galluoedd y bydd eu hangen i gyflawni'r tasgau neu'r swyddogaethau hynny.

Y Mynydd Iâ Dynol



Nod cwestiynau sy'n seiliedig ar gymwyseddau yw darganfod beth yn union sy'n eich ysgogi chi a sut y byddwch chi'n ymddwyn ac yn ymateb mewn gwahanol sefyllfaoedd. Rhowch atebion **penodol, nid rhai cyffredinol**. Dewiswch eich esiampl orau. Peidiwch â dychryn os bydd y cyfwelydd yn gofyn cwestiynau pellach. Diben hynny fydd eich helpu chi i greu darlun llawnach o'r profiad.

Os oes gennych chi enghraifft dda sy'n deillio o'ch gwaith, defnyddiwch hi; os nad oes, defnyddiwch esiampl sy'n seiliedig ar eich profiad yn y brifysgol neu'ch profiad allgyrsiol.

Sut mae ateb cwestiynau sy'n seiliedig ar ymddygiad neu gymhwysedd

- Defnyddiwch 'fi/mi/i' pryd bynnag y gallwch chi, hyd os oedd yn ymdrech gan dîm, ac adroddwch yr hanes o'ch safbwynt chi - ond cofiwch roi'r clod i bobl eraill lle bydd hynny'n briodol
- Defnyddiwch y cofair Saesneg **STAR (Situation, Task, Action, Result)** i roi fframwaith i'ch atebion:
 - Disgrifiwch y **sefyllfa** neu'r broblem yn glir
 - Disgrifiwch y **dasg** mewn perthynas â'r sefyllfa
 - Disgrifiwch **yr hyn** wnaethoch chi
 - Disgrifiwch y **canlyniad** a **myfyriwch** yn onest ynglŷn â'r profiad

Enghraifft 1

- Soniwch wrthym am adeg pryd y buoch chi'n gweithio fel aelod o dîm. Pa ran wnaethoch ei chwarae? Pa drafferthion gawsoch chi? Beth wnaethoch chi yn eu cylch? Beth fydddech chi'n ei wneud yn wahanol y tro nesaf?

Ateb gwael

'Rwy' wedi gweithio mewn amryw o dimau gwahanol a bydda i bob amser yn fy nhaflu'n hunan gorff ac enaid i unrhyw dasg. Bydda i'n cyd-dynnu â'r rhan fwyaf o bobl ac mae'r rhan fwyaf o 'mhrofiadau o weithio mewn tîm wedi bod yn ddifyr dros ben. Bydda i'n aml yn fy nghael fy hun yn arwain, a bydda i'n cael blas arbennig ar hynny.'

Ateb da

'Fe benderfynodd rhai ffrindiau a minne godi arian ar gyfer lloches leol i anifeiliaid, 'Noddfa 'Nifeiliaid', am ei bod hi mewn trafferthion ariannol. Fe benderfynon ni drefnu apêl gyhoeddus. Aeth pob un ohonon ni at wahanol fusnesau lleol a llwyddo i gael nawdd i dalu am ddeunyddiau cyhoedduswydd yr ymgyrch. Roedd llawer o'r busnesau lleol yn gefnogol iawn, ond roedd rhai'n eitha gwrthwynebus.

Fy nghyfrifoldeb penodol i oedd dylunio a chynhyrchu'r taflenni gwybodaeth a'r posteri cyhoedduswydd. Gofynnais i aelod arall o'r tîm, un oedd wrthi'n gwneud gradd mewn Teledu a Ffilm, i dynnu ffotograffau ar eu cyfer nhw. Buon ni i gyd yn helpu i ddsbarthu'r taflenni, codi'r posteri a chasglu rhoddion ar y campws ac yn y dref. Fe godon ni stondin yn yr Undeb am dridiau yn ystod wythnos y glasfyrwyr a chymryd ein tro i'w staffio.

Rhwng rhoddion y cyhoedd a rhoddion busnesau, fe godon ni ryw £5,000 mewn pythefnos. Canlyniad rhesymol, ond roedden ni wedi gobeithio codi ychydig yn fwy na hynny.

O edrych yn ôl, rwy'n credu y byddai cynnal amrywiaeth o wahanol ddigwyddiadau i godi arian wedi bod yn fwy llwyddiannus, efallai. Doedd pawb ddim yn teimlo'n hapus ynghylch cysylltu â busnesau neu'r cyhoedd i ofyn am arian. Felly, er i ni drio rhannu'r tasgau'n briodol ymhlith y tîm, mae'n debyg y byddai amrywiaeth o wahanol weithgareddau wedi gallu manteisio mwy ar sgiliau a doniau'r tîm ac, yn y pen draw, wedi codi rhagor o arian. Ar ben hynny, fe gymerodd y cynllunio a'r paratoi fwy o amser nag roedden ni wedi'i ddisgwyl a phetaen ni'n gwneud unrhyw beth fel hyn eto, fe fydden ni, ar sail ein profiad, yn gorfod dod o hyd i ffyrdd o weithio'n fwy effeithlon fel tîm er mwyn cyflymu'r holl beth.'

Enghraifft 2

- Soniwch wrthon ni amdanoch chi'n datrys problem. Beth oedd y broblem? Sut aethoch ati i'w datrys? Beth fydddech chi'n ei wneud yn wahanol y tro nesa?

Ateb gwael

'Bydd llawer o broblemau'n codi yn eich bywyd bob-dydd, wrth gwrs. Pan fydd gen i broblem, bydda i'n ceisio dadansoddi pob agwedd arni, yn pwyso a mesur y manteision a'r anfanteision, ac yn meddwl yn glir ynglŷn â'r ffordd orau o symud ymlaen. Am fod gen i feddwl dyfeisgar, bydda i'n ei chael hi'n hawdd datrys y rhan fwya o'r problemau sy'n codi.'

Ateb da

'Ces i broblem yn ddiweddar gyda darn o feddalwedd. Rôn i wedi prynu cyfrifiadur newydd ac arno'r fersiwn diweddaraf o'r pecyn recordio Adobe Audition (fersiwn 3). Gan i mi ddefnyddio'r fersiwn blaenorol yn rhesymol o dda, dôn i ddim yn rhagweld unrhyw broblem. Ond y tro 'ma, rôn i'n gweithio ym myd recordio aml-drac ac roedd rhan fach o eiliad o oedi ar bob trac olynol. Roedd hi felly'n amhosibl defnyddio llu o draciau i recordio'n effeithiol, sef holl ddiben cael y meddalwedd.

Es i dros holl gysylltiadau'r caledwedd yn ofalus, gwirio gyrwyr y cerdyn sain a rhoi cynnig arni eto. Dim lwc. Yna, holais dri arbenigwr ym maes cyfrifiaduron am eu barn nhw a dilyn pob un o'u hawgrymiadau. Pan na lwyddodd yr un o'r rheiny, fe es i ar drywydd y broblem ar y we a chymryd rhan mewn gwahanol grwpiau trafod. Fe welais i nad fi'n unig oedd yn cael y trafferthion hyn ac yn y pen draw fe ddes i o hyd i rywbeth o'r enw 'cuddni' ('latency') oedd yn swnio fel fy mhroblem i. Darganfyddais beth oedd yn ei achosi a'r camau roedd angen eu cymryd i'w ddatrys.

Mae'n debyg bod angen gyrrwr ASIO (mewnbwn/allbwn llif sain) arna i a llwythais fersiwn-am-ddim ohono i lawr yn llawn gobaith. Gwaetha'r modd, wnaeth e ddim tamaid o wahaniaeth, ac rôn i ar fin rhoi'r gorau i'r cyfan a throi'n ôl at fy hen gyfrifiadur a defnyddio'r hen feddalwedd.

Ond ar ôl meddwl am sbel, fe es i'n ôl at y broblem ac ar ôl arbrofi'n amyneddgar, fe lwyddais o'r diwedd i osod y gyrrwr ASIO yn gywir. A dweud y gwir, roedd y cam ola'n eitha syml ac amlwg.

Er i mi daclo'r broblem yn y ffordd iawn, rwy'n meddwl, drwy edrych yn ofalus ar yr holl gysylltiadau, gofyn am gyngor a chymorth ac ymchwilio i'r broblem gymaint ag y gallwn, efallai y gallwn i fod wedi sefyll yn ôl o'r broblem ychydig ynghynt am fod ymbellhau oddi wrth broblem yn rhoi mwy o bersbectif i mi wrth ddod yn ôl ati.

c. Cwestiynau sefyllfa

Mae cwestiynau sefyllfa'n debyg i gwestiynau sy'n seiliedig ar ymddygiad neu gymhwysedd am mai eu diben yw darganfod rhagor am eich hanfod chi - y rhan o'r 'mynydd iâ' sydd o'r golwg - eich daliadau, eich gwerthoedd a'ch cymhelliant, ond mae yna wahaniaeth allweddol. Fel rheol, caiff cwestiynau sy'n seiliedig ar ymddygiad neu gymhwysedd eu hateb drwy gyfeirio at yr hyn a wnaethoch chi **yn y gorffennol**. Caiff cwestiynau sefyllfa'u seilio ar yr hyn y gallech chi, yn eich barn chi, ei wneud mewn sefyllfa benodol **yn y dyfodol**.

Cwestiynau sefyllfa yw cwestiynau 'Beth fydddech chi'n ei wneud petai ...?'. Mae'n debyg y byddant yn holi ynghylch sefyllfaoedd posibl y gallech chi eu hwynebu mewn swydd benodol ac felly'n rhoi prawf ar eich dealltwriaeth o'r hyn y mae rôl y swydd yn debyg o'i olygu.

Bydd angen i chi ddefnyddio'r person cyntaf, fel o'r blaen.

Enghraifft

- Beth fydddech chi, fel arweinydd tîm, yn ei wneud pe na bai aelod o'ch tîm yn tynnu ei bwysau neu ei phwysau mewn tasg?

Ateb da

'Os byddai'r mater wedi'i godi gan aelodau eraill o'r tîm, byddwn i'n mynd ati'n gynta i'w holi am y sefyllfa ac yna'n eu sicrhau y byddwn i'n cymryd camau i ddatrys y broblem. Yna, byddwn i'n trefnu cyfarfod â'r unigolyn sy'n tangyflawni. Byddwn i'n cael gair ag e neu hi ac yn trio darganfod beth yw'r broblem - problemau personol, problemau iechyd y corff neu'r meddwl, diffyg awydd i wneud y gwaith, diflastod, diffyg sgiliau perthnasol, diogi llwyr neu rywbeth arall.

Os oes problemau personol neu broblemau iechyd, efallai y byddwn i'n awgrymu troi at ryw arbenigwyr allanol. Os yw'n fater o ddiffyg awydd i wneud y swydd, byddwn i'n trafod ffyrdd o wneud y dasg yn fwy diddorol i'r unigolyn, drwy newid ei rôl efallai, neu drwy roi cyfrifoldebau arbennig iddo neu iddi. Os diffyg sgiliau yw'r broblem, byddwn i'n awgrymu hyfforddiant priodol.

Ym mhob achos, fe fydden ni'n cyd-lunio cytundeb ynghylch cynllun gweithredu a fyddai'n cynnwys targedau perfformiad o fewn amserlen bendant. Byddwn i'n gwneud yn siŵr 'mod i'n rhoi adborth cyffredinol i weddill y tîm ynglŷn â'r penderfyniadau sydd wedi'u gwneud - gan barchu cyfrinachedd, wrth gwrs - ac yn adolygu'r sefyllfa ymhen hyn a hyn.

Gallai enghreifftiau eraill gynnwys:

- Beth wnaech chi petai aelod o'r cyhoedd yn gas ac yn ymosodol tuag atoch chi?
- Beth wnaech chi petai plentyn yn tarfu'n gyson ar eich dosbarth?
- Beth wnaech chi petaech chi'n methu cadw at amserlen prosiect rydych chi'n llwyr gyfrifol amdano?

ch. Cwestiynau creadigol

<ul style="list-style-type: none"> • Petaech chi'n unben ar y byd i gyd yfory, beth fyddai'r peth cyntaf wnaech chi? 	Gall y cwestiynau hyn gael eu defnyddio i weld sut y byddwch chi'n ymateb dan bwysau a pha mor gyflym y byddwch chi'n meddwl.
<ul style="list-style-type: none"> • Beth yw'ch hoff ddyfyniad, a pham? 	Allwch chi ddim paratoi ar gyfer y rhain mewn gwirionedd, ond mae'n ddefnyddiol gwybod y gallwch chi gael cwestiynau annisgwyl fel hyn.
<ul style="list-style-type: none"> • Petaech chi'n gorfod cael gwared ar un o wledydd y byd, p'un fyddai hi, a pham? 	Mae'n iawn i chi ddangos ychydig o ffraethineb a hiwmor yn eich atebion.
<ul style="list-style-type: none"> • Petaech chi'n anifail, yn ddarn o ffrwyth neu'n gerbyd, beth fydddech chi, a pham? 	Cofiwch y bydd eich atebion i'r mathau hyn o gwestiynau hefyd yn cyfleu negeseuon pwysig am y rhan ohonoch chi sydd 'o'r golwg' - ond o feddwl ychydig ymlaen llaw, gallwch ddal i'w defnyddio i ddangos eich bod chi'n addas i'r swydd.
<ul style="list-style-type: none"> • Sut y bydddech chi'n pwysu awyren heb glorian? 	Weithiau, ac yn enwedig yn achos swyddi technegol neu swyddi technoleg gwybodaeth, efallai y cewch chi gais i drafod problem sy'n gofyn i chi feddwl yn rhesymegol neu'n greadigol. Ewch i www.careerknowhow.com/interviewtips/mtfuji.htm i gael syniadau.

d. Cyfweiliadau ar sail cryfderau

Mae rhai cwmnïau sy'n cyflogi graddedigion, megis EY ac Aviva, wedi dechrau dibynnu'n llai ar gymwyseddau gan symud tuag at gyfweiliadau ar sail cryfderau.

Ystyr cymwyseddau yw'r hyn y *medrwch* ei wneud a sut y gwnaethoch weithredu mewn rhai sefyllfaoedd penodol. Ond mae cryfderau yn ymdrin â'r pethau sy'n eich cyffroi a'ch ysbrydoli; pethau rydych yn eu gwirioneddol fwynhau - unrhyw beth, o swdocw, i ganu neu chwarae rygbi. Pethau y gallwch eu gwneud yn dda yw cryfderau, pethau rydych yn ymdaflu iddynt yn llwyr, yn ymgolli ynddynt heb sylwi faint o amser sydd wedi mynd heibio.

Roedd teimlad ar led bod ymgeiswyr wedi arfer yn ormodol â chwestiynau yn ymwneud â chymwyseddau, nes bod yr atebion yn dechrau dilyn yr un fformiwlâu ac yn swnio'n debyg iawn i'w gilydd.

Mewn cyfweiliadau ar sail cryfderau, y gred yw bod modd gweld yr unigolyn go iawn drwy ddatgelu doniau a brwdfrydedd naturiol yr ymgeisydd, ei anian wirioneddol, a chan hynny mae'n haws dweud a fyddai'n addas i'r swydd benodol dan sylw.

Yn ôl y ddamcaniaeth, os bydd pobl yn chwarae (ac, wrth gwrs, yn gweithio) yn ôl eu cryfderau, byddant yn fwy brwd, llawn egni, mwy effeithiol, yn gweithio'n galetach ac yn fwy bodlon. Os ydynt yn fodlon yn eu gwaith, byddant yn cyfrannu mwy ac aros yn hwy. Mae hynny'n golygu bod y cyflogwr a'r gweithiwr ar eu hennill, ill dau.

Bydd y mathau o gwestiynau a geir mewn cyfweiliad ar sail cryfderau yn tueddu i fod yn ehangach eu cwmpas ac yn cael eu llywio gan ymatebion yr ymgeisydd unigol. Yn ôl yr adborth a gafwyd hyd yn hyn, mae'r ymgeiswyr a'r cyfwelwyr fel ei gilydd yn cael y math hwn o gyfweiliad yn 'chwa o awyr iach', yn rhoi cyfle i'r cyfwelwyr gael gwell syniad o'r hyn sy'n gyrru'r ymgeisydd.

Dyma enghreifftiau o gwestiynau ar sail cryfderau gan EY;

- Beth rydych yn ei wneud yn dda?
- Pa weithgareddau sy'n eich ysbrydoli chi?
- Pryd y teimlwch eich bod 'chi eich hunan' fwyaf?
- Pryd y byddwch chi ar eich gorau?
- Sut y gallwch fanteisio'n fwy ar eich cryfderau?

Am gyflwyniad defnyddiol i gyfweiliadau ar sail cryfderau, gweler gwefan Gwasanaeth Cyngori ar Yrfaedd Prifysgol Caint: www.kent.ac.uk/careers/interviews/strength-based-interviews.htm.

➤ Cyngorion cyffredinol ynghylch ateb cwestiynau

- Os bydd cwestiwn yn eich llorio chi'n llwyr, gallech chi ddefnyddio tactegau i roi tipyn o amser meddwl, fel ailadrodd y cwestiwn, gofyn am eglurhad neu ddweud y byddai angen ychydig o amser i chi feddwl am y cwestiwn. Yn wir, gall ofyn i holwr esbonio'n union y mae'n ei olygu newid cydbwysedd grym y cyfweiliad o'ch plaid chi.
- Mae'n iawn i chi oedi cyn ateb, ond peidiwch ag oedi'n rhy hir.
- Peidiwch â siarad yn rhy faith. Chwiliwch am arwyddion bod y cyfwelwyr yn diflasu, ac ymatebwch i hynny. Gallwch chi bob amser ofyn 'Ydw i wedi ateb eich cwestiwn?' neu 'Hoffech chi i mi sôn rhagor am hyn?'
- Ewch ati ymlaen llaw i lunio rhai gosodiadau sy'n cyfleu'r pethau hanfodol yr hoffech chi eu cyfleu amdanoch chi'ch hun. Gweithredwch fel petaech chi'n wleidydd a thynnwch hwy i mewn i'ch atebion.

➤ Paratoi ar gyfer cyfweiliad dros y ffôn

Yn aml, caiff cyfweiliadau dros y ffôn eu defnyddio i weld a oes gennych chi ddiddordeb go-iawn yn y swydd, neu a ydych chi wedi bod yn cynnig am bob math o swyddi. Y canolbwynt fydd pam yr hoffech chi weithio i'w cwmni hwy ac a oes gennych chi'r hyn y mae amynt hwy ei eisiau ac a yw hi'n werth gofyn i chi ddod i gyfweiliad wyneb yn wyneb.

Cofiwch ei bod hi'n fater nid yn unig o'r *hyn* ddywedwch chi ond *sut* rydych chi'n swnio. Fydd dim ciwiau gweledol oni fydd y cyfweiliad yn un dros system fideogynadledda. Rhaid i'ch llais - a dim arall - gyfleu'r cyfan. Dylech chi **baratoi yn yr un ffordd yn union** ag ar gyfer unrhyw fath arall o gyfweiliad.

Gair i gall

- Gwnewch yn siŵr eich bod chi ar eich pen eich hun mewn ystafell dawel, yn eistedd wrth fwrdd â'ch nodiadau o'ch blaen, a bod pen ysgrifennu wrth law i chi wneud nodiadau pellach.
- Byddwch yn broffesiynol a gofalcwch beidio bod yn hy a sgwrslyd ac yn ddi-hid ac yn esgeulus eich iaith.
- Gwnewch yn siŵr eich bod yn gwybod enw'r person. Cyfeiriwch ato/atî fel Mr/Mrs/Ms/Dr ac ati, a pheidiwch â defnyddio'i (h)enw cyntaf oni chewch eich gwahodd i wneud hynny.
- Anadlwch yn ddwfn, a phwyllwch. Ceisiwch beidio clebran. Bydd eistedd yn gefnsyth â'ch ysgwyddau yn ôl yn gwella sŵn eich llais.
- Mae'n hanfodol i chi swnio'n frwd ac i chi wenu!
- I sicrhau'r meddylfryd cywir, dychmygwch fod y cyfwelydd yn gallu'ch gweld chi - hynny yw, peidiwch â gwneud cyfweiliad dros y ffôn yn eich pyjamas!

➤ Creu argraff ragorol yn syth

Gwyddor an-fanwl yw cyfweld. Anaml iawn y bydd y busnes cymhleth o bwyso a mesur ymgeiswyr yn rhydd rhag gogwydd, er gwaethaf holl ymdrechion yr arbenigwyr ar adnoddau dynol. Mae ymchwil yn dangos y gall cyfwelydd benderfynu ynghylch ymgeisydd yn ystod yr hanner munud cyntaf. O ddeall rhywfaint am hyn, dylai'ch helpu chi i roi cychwyn gwirioneddol gadarnhaol i'ch cyfweiliad.

➤ Effaith yr 'eurgylch'

Dangoswyd bod cyfwelwyr yn ymateb yn syth ac yn reddfodol i ymgeiswyr, gan eu barnu'n rhai cwbl dda neu'n rhai cwbl wael o'r cychwyn cyntaf. 'Effaith yr Eurgylch' ('the Halo Effect') yw'r enw ar hynny. Mae'n arbennig o debyg o ddigwydd os oes gan ymgeisydd nodwedd gwbl amlwg. Yna, bydd tuedd i gyfwelwyr ddiystyru neu anwybyddu unrhyw dystiolaeth sy'n groes i'w hargraff gyntaf.

Mae'n hanfodol i chi greu'r argraff gyntaf orau y gallwch chi, am y gall fod yn anodd adfer y sefyllfa os gwnewch chi ddechrau'n wael. Dylai'r cyngor isod eich helpu chi.

➤ Sicrhau'r eurgylch

Amcangyfrif yr arbenigwyr yw bod 70-80% o bob cyfathrebu yn ddieliriau. Byddwch chi'n cyfleu pob math o negeseuon, hyd yn oed cyn i chi ddechrau siarad. Dyma'r pethau pwysicaf i'w cofio:

1. Cerddwch mor gefnsyth a thalsyth ag y gallwch chi.
2. Cerddwch yn hyderus heb lusgo'ch traed, cadwch eich gŕen i fyny a sythwch eich ysgwyddau
3. Peidiwch â rhoi'ch breichiau, eich ffolder, eich bag na dim byd arall ar draws eich corff, p'un a ydych chi'n eistedd neu'n sefyll.
4. Os byddwch chi'n croesi'ch coesau ar ôl i chi eistedd, gofawch nad yw'r droed sydd oddi ar y llawr yn dechrau symud ohoni'i hun! Bydd hynny'n cyfleu eich bod chi'n bryderus ac fe all dynnu sylw oddi ar eich geiriau.
5. Edrychwch yn syth a digynnwrf i lygaid y cyfwelwyr ond heb syllu'n ymosodol arnynt. Os bydd unigolyn yn gofyn cwestiwn i chi, cyfeiriwch eich ateb at yr holl gyfwelwyr ac edrychwch i lygaid pob un ohonynt hefyd.
6. Ceisiwch osgoi arferion personol a symudiadau herciog.
7. Peidiwch â chyffwrdd â'ch wyneb (nac unrhyw ran arall ohonoch!) o hyd.
8. Gall dynwared symudiadau unigolyn yn gynnil feithrin teimladau cadarnhaol ynddo/ynddi, e.e. ysgwyd eich pen i gytuno, pwyso ymlaen i wrando.
9. Defnyddiwch ystumiau i ddangos eich ynni a'ch brwdfrydedd, ond peidiwch â'i gorwneud hi! Byddwch yn gynnil.
10. Gwenwch - mae gwenu'n fynegiant dynol mor rymus a phwysig nes bod modd ei weld o bell. Ond peidiwch, wrth gwrs, â gwenu fel ffŵl drwy'r amser na phiffian chwerthin yn nerfus.

Drwy ddilyn y cyngor hwn, nid yn unig y cewch chi'ch gweld mewn ffordd wirioneddol gadarnhaol ond byddwch chi'n teimlo'n fwy hyderus am fod gennych fwy o reolaeth dros y sefyllfa.

➤ Delio â Nerfau

Gall nerfau fod yn broblem i lawer o bobl cyn cyfweliad. Gall paratoi'n dda fod yn gymorth mawr, a gall fod yn fuddiol iawn dysgu rhai technegau hefyd i ymlacio ac i leddfu'r straen. Gall sefyll yn gefnsyth a chadw'ch brest a'ch gwddf yn agored fod yn ffordd i chi anadlu'n ddwfn a theimlo'n llai cythryblus. Bydd osgo da hefyd yn gwella sŵn eich llais. Techneg fyfyrion sy'n help yw meddwl am lun hapus a heddychlon. I gael rhagor o syniadau, ewch i www.mindtools.com/pages/main/newMN_TCS.htm ac www.wildmind.org/applied/stress/meditation-for-the-very-very-busy.

Dewiswch ddull sy'n cyd-fynd â chi, ac ewch ati i'w ymarfer.

➤ Ysgwyd llaw a'r cyflwyniadau

Gan fod ysgwyd llaw yn gysylltiad corfforol pwysig a grymus iawn, mae angen i chi ysgwyd llaw yn gywir. Wrth ysgwyd llaw, dylech wenu a rhoi **cyfarchiad** a chyflwyniad priodol. Yna, mae'n ddigon posibl y bydd tipyn bach o **fân siarad** cyffredinol, am eich taith neu'r tywydd efallai, cyn i'r cyfweliad ddechrau o ddifrif. Mae ysgwyd llaw a 'glud cymdeithasol' y sgwrsio anffurfiol ill dau'n bwysig iawn. Bydd angen i chi ymarfer y naill a'r llall.

Cynghorion ynghylch ysgwyd llaw

- Wrth aros i fynd i mewn, daliwch gledrau'ch dwylo yn wastad ac agored. Os oes tuedd i'ch cledrau fod yn chwyslyd iawn, ewch â 'wet wipes' gyda chi.
- Peidiwch â meddwl bod rhaid i chi ysgwyd llaw â phawb sydd ar y panel. Fel rheol, bydd ysgwyd llaw'r Cadeirydd yn ddigon. Os na fydd neb yn cynnig ei (l)law, gallwch estyn eich llaw chi.
- Peidiwch â phlygu gormod ar eich braich wrth y penelin - daw hynny â chi'n rhy agos.
- Peidiwch â gwasgu bysedd y person arall yn rhy dynn.
- Cynigiwch eich llaw i gyd, nid dim ond blaenau'ch bysedd.
- Peidiwch â dal eich llaw yn wanllyd a llipa.
- Peidiwch ag ysgwyd llaw yn rhy hir. Bydd tair neu bedair gwaith yn ddigon.
- Peidiwch â defnyddio'ch llaw arall, er enghraifft, i gyffwrdd â phenelin y person arall, na gorchuddio'i (l)law. Cyfleu awydd i dra-arglwyddiaethu wnaiff hynny.
- Cofiwch ysgwyd llaw ar ddiwedd y cyfweliad hefyd.
- Peidiwch â sychu'ch llaw ar eich trowsus neu'ch sgert wedyn.
- Gwenwch!

Sylwch: Gall ysgwyd llaw beidio â chael ei ystyried yn beth priodol mewn rhai gwledydd.

Gair i gall.

Syniad da yw trefnu i chi gael eich ffilmio'n dod i mewn i ystafell, yn cyfarch rhywun ac yn eistedd. Cewch chi ryw syniad o'r argraff a wnewch chi a bydd hynny'n eich helpu chi i gael gwared ar unrhyw arferion drwg.
www.ehow.com/how_2032750_shake-hands-job.html

➔ Gadael Argraff Barhaol

Cofiwch fod yr ychydig eiliadau olaf mewn cyfweiliad yr un mor bwysig â'r ychydig eiliadau cyntaf. Ysgwydwch law unwaith eto, diolchwch iddynt am eich cyfweld, ac (os yw'n wir) manteisiwch ar y cyfle i ddweud mor awyddus ydych chi i gael y swydd a pha mor dda fydddech chi pe caech chi'ch penodi iddi. Cerddwch allan yn gefnysyth a cheisiwch wneud yn siŵr na fyddwch chi'n ceisio mynd allan drwy ddrws i gwprdd!

➔ Wedyn

Wedi llwyddo?

Os byddwch chi'n llwyddiannus, dyma'r adeg i chi godi mater cyflog, telerau ac amodau. Gwnewch yn siŵr eich bod chi'n fodlon arnynt cyn i chi lofnodi'r contract. Os byddwch chi'n ddigon ffodus i gael cynnig mwy nag un swydd, neu'n disgwyl cael canlyniad cyfweiliad arall, gwnewch yn siŵr eich bod chi'n gwybod erbyn pryd y mae'n rhaid i chi dderbyn y swydd yn ffurfiol. Os oedwch chi ormod, gallech chi golli'r ddwy. Gallai rhai swyddi, yn enwedig ym myd addysg, gael eu cynnig i chi ar y diwrnod. Mewn achosion o'r fath, peidiwch â derbyn gan feddwl y gallwch chi newid eich penderfyniad yn ddiweddarach. Yr arfer yw ystyried bod cytundeb llafar yn eich rhwymo chi.

Heb llwyddo?

Yn ystadegol, yr ydych chi'n debyg o fod yn aflwyddiannus mewn cyfweiliad dipyn yn amlach nag y byddwch chi'n llwyddiannus. Hynny yw, gall fod rhaid i chi fynd drwy'r broses sawl tro cyn i chi gael swydd. Gall fod llawer rheswm dros i chi beidio â llwyddo, ac ni fydd gan lawer ohonynt ddim byd oll i'w wneud â chi. Ceisiwch drin pob un fel profiad buddiol.

Ceisiwch fod yn gadarnhaol eich meddwl a gofynnwch am sylwadau/adborth yn eithaf buan wedyn. Bydd y rhan fwyaf o sefydliadau'n fodlon gwneud hynny. Bydd yr adborth, os gweithredwch chi arno, yn eich helpu yn eich cyfweiliad nesaf ac, yn bwysicach na hynny, gall eich helpu i deimlo'n well amdanoch chi'ch hun.

➔ Tynnu'n ôl o gyfweiliad

Os teimlwch chi nad yw'r swydd yn iawn i chi, gallwch dynnu'n ôl o'r broses gyfweld unrhyw bryd. Gwnewch hynny mewn ffordd broffesiynol ac esboniwch eich rhesymau. Peidiwch â chilio'n llechwraidd. Ond mae'n debyg nad yw hi'n syniad da tynnu'n ôl yn rhy aml rhag i bobl ddechrau siarad. Ond os ydych chi'n wirioneddol siŵr nad oes arnoch chi eisiau'r swydd, mae'n llawer tecach peidio â gwastraffu amser pobl, ac i chi ddweud hynny.

➔ Rhagor o gymorth?

Gallwch chi drefnu ffug-gyfweiliad ag ymgynghorydd gyrfaedd drwy alw heibio i'n swyddfa yn Undeb y Myfyrwyr neu drwy ffonio 01970 622378.

Cynhelir gweithdai cyfweld hefyd yn gyson drwy'r Rhaglen Gweithgareddau Cyflogadwyedd www.aber.ac.uk/careers/events/ a hefyd y Rhaglen Hyfforddiant Sgiliau Uwchraddedig (y PGSTP) www.aber.ac.uk/cy/grad-school/res-develop/pg-skills-training/.

Efallai fod eich adran eich hun yn rhoi darlithiau ar sgiliau cyfweiliad.

➔ Adnoddau defnyddiol

- www.jobsite.co.uk/bemyinterviewer/ - fideo rhagorol/rhyngweithiol
- <http://news.bbc.co.uk/1/hi/magazine/7436404.stm> - five job interview bear traps
- www.aber.ac.uk/careers/interviews
- Darllenwch am gymwyseddau ymddygiad yng Ngeiriadur y Cyngor Prydeinig o Gymwyseddau Ymddygiad - www.britishcouncil.org/sites/britishcouncil.uk2/files/bc_behaviours.pdf
- www.businessballs.com/interviews.htm - cyfweiliadau - cwestiynau ac atebion
- Ceisiadau, CV a chyfweiliadau - www.prospects.ac.uk/links/appsinterviews
- DVD AGCAS 'Making an impact: the graduate job interview'
- Gweler 'Interview tips' ar wefan Prospects—www.prospects.ac.uk/interview_tips.htm

Lleoliadau a Manylion Cysylltu

- ➔ **Gwasanaeth Gyrfaoedd**
Undeb y Myfyrwyr (drws nesaf i Siop yr Undeb)
Ar agor: dydd Llun - dydd Iau 9am - 5pm a
dydd Gwener 9am - 4pm
Ar gau tan 10am a rhwng 1pm a 2pm yn ystod y gwyliau
Ffôn: 01970 622378 E-bost: careers@aber.ac.uk

Sesiynau Ymgynghorydd Gyrfaoedd

Mae ymgynghorwyr gyrfaoedd ar gael - medrwyh alw i mewn gydag ymholiadau cyflym neu drefnu amser, neu gael eich cyfeirio ymlaen i drafodaeth yrfaeodd hirach i drafod pethau yn fwy manwl.

Ceir sesiynau galw i mewn (tua 15 munud), ar sail y cyntaf i'r felin:

- Am fanylion amserau'r sesiynau galw i fewn, ffoniwch y rhif isod neu ewch i'n gwefan www.aber.ac.uk/careers/book

I drefnu apwyntiad hirach, galwch i weld ein staff cyfeillgar yn y Dderbynfa neu rhowch alwad iddynt ar 01970 622378.

www.aber.ac.uk/careers/

Gellir darparu'r wybodaeth hon mewn fformatau gwahanol.

Mae'r wybodaeth hon ar gael yn Saesneg. This information is available in English.

© 2014 Gwasanaeth Gyrfaoedd, Prifysgol Aberystwyth.